

## I ddod

- **CYFARFODYDD CYHOEDDUS CYMANFA GYFFREDINOL EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU** yng Nghapel y Groes, Wrecsam, Gorffennaf 9fed-11eg.
  - Nos Lun (9fed) am 7.30 - Gwasanaeth Cymun a Choffâd. Pregethir gan y Parch. Ian Sims, Llanelli.
  - Dydd Mawrth (10fed) am 11.45 – Y Ddarlith Davies. Darlithydd: Y Parch Wyn Rhys Morris, Aberystwyth. Testun: Rhamantiaeth Hanesyddol a Gwleidyddiaeth Eglwysig yng Nghymru'r 19fed Ganrif.
  - Nos Fawrth (10fed) am 7.30 – Araith Ymadawol y Llywydd, y Parch. Brian Huw Jones, Prestatyn a Throsglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parch. Brian Matthews, Wrecsam.
  - Dydd Mercher (11eg) am 11.45 – Darlith y Gymdeithas Hanes. Darlithydd: Dr Gethin H. Matthews. Testun: *Angels, Doves and Minerva: Reading the memorials to the Great War in Welsh Presbyterian chapels.*
- **OEDFA I'R FRO** a chyfle i ddiolch i Gwion am ei gyfraniad arbennig i bob oed ym Mro Aled bore Sul, Gorffennaf 29ain am 10.30. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
  - ⇒ **Cwrs Ieuentid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
  - ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
  - ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain

*Cofiwch fod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.*

### Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291  
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163  
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536  
*Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

### Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

### Darlleniad Wythnos Nesaf

Iago 5:7-11 (BCND tud.254 / BCN tud.233)



## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17<sup>eg</sup> Mehefin 2018

Darlleniad y Dydd

Diarhebbion 16:1-3

(BCND tud.589 / BCN tud.538)

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

[hyfforddiantdawn.com](http://hyfforddiantdawn.com)

Croeso cynnes i chi i gyd i'r oedfaon ar draws y Fro heddiw. Dewch i ni gofio heddiw ein bod ni'n addoli ac yn gwasanaethu'r Arglwydd, yr unig Dduw go iawn - y Duw byw, sy'n frenin am byth! (Jeremeia 10:10). Dewch i ni roi ein bywydau iddo fo yn llwyr a'i wasanaethu o. Fe ddaw diwrnod pan fydd pawb sy'n fyw ac sydd wedi byw yn plygu glin i addoli'r Arglwydd Mawr. Beth am i ni gymryd y cyfle i wneud hynny heddiw?

Wrth i ni edrych ar ein darlleniad heddiw, gwelwn ein hagweddu a'n cymhellion ni ochr yn ochr â chymhellion a chymeriad Duw. Mae'r gwahaniaeth yn amlwg ac yn un y gallwn ni uniaethu ag ef dwi'n siŵr. Mor aml mae canlyniadau ein hymdrechion yn troi allan yn wahanol iawn i'n bwriadau. Mor aml ydyn ni'n meddwl ein bod yn gwneud yn iawn ar y pryd, ond yn sylweddoli wedyn mai dim ond rhoi ein troed ynddi hi wnaethom ni! Wedyn, pa mor aml ydyn ni wedi gwneud cynlluniau, dim ond i'w gweld nhw'n mynd ar chwâl? Wrth i ni ddarllen a deall y pethau yma, down i weld pa mor fregus a thros dro ydyn ni fel pobl a dynoliaeth wrth gymharu gydag Arglwydd yr holl fydysawd.

Ochr yn ochr â'n gwendid a'n ffaeledigaeth ni, fe ddysgw'n am ffyddlondeb a doethineb yr Arglwydd. Pan mae'r Arglwydd yn siarad, mae ei Air bob amser yn llwyddo i gyflawni ei bwrpas (Eseia 55:11). Wrth bwysu ar Dduw, mi allwn ni drystio fod ei fwriadau o'n mynd i lwyddo. Pa bynnag mor ddrwg mae'r sefyllfa'n edrych o'n hochr ni, mae'r Arglwydd yn fuddugol ac o'n plaid! Mae'r Arglwydd yn dŵr cadarn (Diarhebbion 18:10), cariadus sydd yn edrych ar galonau pobl, nid ar weithredoedd na gwedd gorfforol. Fel yr esboniwyd i'r proffwyd Samuel (1 Sam. 16:7), mae Duw yn pwysu a mesur cymhellion a chalonnau pob un ohonom ac yn ein darllen yn gywirach nac allwn ni ddarllen ein hunain!

Dyma'r Duw sy'n ein galw i berthynas agos gydag o'i hun. Dyma'r Duw sy'n noddfa ac yn gynhaliath i'r rhai sy'n ei garu. Ydych chi'n adnabod ac yn ymddiried ynddo fo heddiw?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau – 21<sup>ain</sup> ➤ **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) ym Mhreswylfa, Cefn Meiriadog am 5.00.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Gwener – 22<sup>ain</sup> ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.

Sul nesaf – 24<sup>ain</sup>

### SUL Y FRO

Bydd oedfa i'r teulu cyfan yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan **am 10.30 y bore,**

ac yna amser cinio, bydd mochyn wedi ei rostio a phwddin ac amser i gymdeithasu yng Nghae Chwarae Llansannan. Bydd yno hefyd gastell bownsio, cyfle i chwarae bowls, a chwaraeon i'r teulu cyfan.

Dewch ag esgidiau addas er mwyn ymuno yn yr hwyl.

*(Os na fydd y tywydd yn caniatáu inni fod yn yr awyr agored, mae trefniadau wedi eu gwneud inni fynd i'r Ganolfan yn Llansannan.)*

**\*\*\* Os ydych am aros i ginio, wnewch chi roi eich enw i Mair HEDDIW (17eg), os gwelwch yn dda? \*\*\***

Pris y cinio: £5 i oedolion a £2 i blant ysgol gynradd.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith ym Mheniel am 2.00 a chynhelir Ysgol Sul yno am 10.00.
- Mawrth – 19<sup>eg</sup> ➤ Ni fydd Clwb Ysgol Sul Saron yn cael ei gynnal yr wythnos hon.

### Henllan a Groes

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

## Cyhoeddiadau

### Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mawrth – 19<sup>eg</sup> ➤ Bydd y criw 'Paned a Sgwrs' yn ymweld â gardd Pont y Tŵr. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Sian Fferwd (870230). Enwau i Sian **HEDDIW (17<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.
- Mercher – 20<sup>fed</sup> ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **HEDDIW (17<sup>eg</sup>)**, os gwelwch yn dda.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 17<sup>eg</sup> ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00, ac am 11.00 yn dilyn yr Ysgol Sul, mae gwahoddiad i holl aelodau Cefn Berain i drafod gwasanaethau y Sul i'r dyfodol.

## EGLWYSI CYMRU YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CAERDYDD AWST 2018

Eleni eto bydd Cytûn yn cydlynu Pabell Eglwysi Cymru ar ran Eglwysi Ynghyd yng Nghymru. Mae gwahoddiad i ni i fynd i'r babell i ymuno yn yr addoliad am 11.00 bob bore, i wrando ar gerddoriaeth, trafodaethau a chyflwyniadau, ac i glywed mwy am waith yr eglwysi. Bydd rhai o'r trafodaethau a'r cyflwyniadau yn digwydd yn adeilad Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, daflad carreg o'r maes. Bydd rhaglen lawn ar gael ar wefan Cytûn, ac yn y babell ar y maes (rhif 141-142).

Yn ogystal â hyn, bydd tocynnau ar gyfer yr oedfa i'w cael am ddim trwy gysylltu â Cytûn. Gallwch archebu hyd at ddau docyn trwy ddilyn y ddolen i'r ffurflen gais ar wefan Cytûn: [www.cytun.org.uk](http://www.cytun.org.uk), neu gallwch ffonio 02920 464204. (Bydd y tocynnau'n cael eu dosbarthu o swyddfa'r Eisteddfod, ac nid o swyddfa Cytûn.)

Mae'n hanfodol fod unrhyw un sy'n dymuno archebu tocynnau am ddim ar gyfer yr oedfa yn gwneud yn siŵr fod y ffurflen gais wedi cyrraedd Cytûn **CYN 30 MEHEFIN 2018. Ni fydd yn bosib archebu tocynnau ar ôl y dyddiad hwn. Nifer cyfyngedig o docynnau sydd ar gael, a byddant yn cael eu dosbarthu yn ôl egwyddor y cyntaf i'r felin. Ni fydd tocyn diwrnod/wythnos yr Eisteddfod yn gwarantu mynediad i'r oedfa; bydd yn rhaid cael tocyn arbennig.**

